

CEU 11

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE | Culture and the new relationship with the EU

Ymateb gan: Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) | Evidence from: Welsh Independent Producers (TAC)

Ymateb Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) i ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd i Ddiwylliant a'r berthynas newydd â'r UE

Hydref 2023

Gwybodaeth am TAC

1. Mae TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) yn cynrychioli'r sector cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru. Mae ein sector yn gydran sylweddol o'r diwydiannau creadigol, yng Nghymru ac yn y DU yn gyffredinol, gyda Chaerdydd yn unig yn cael y trydydd clwstwr ffilm a theledu mwyaf yn y DU¹. Mae ein sector yn darparu manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol drwy ddarparu cynnwys creadigol. Mae oddeutu 50 o gwmnïau yn y sector yng Nghymru, yn amrywio o fasnachwyr unigol i rai o'r prif gwmnïau yn niwydiant cynhyrchu'r DU. Maent yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 a Sky yn ogystal â darlledwyr a llwyfannau masnachol eraill. Mae ein cwmnïau sy'n aelodau yn cynhyrchu bron yr holl gynnwys teledu a

¹ <https://www.cardiff.ac.uk/cy/news/view/2510538-cardiff-has-third-largest-film-and-tv-cluster-in-uk,-study-shows>

chyfryngau ar-lein gwreiddiol ar gyfer y darlledwr Cymraeg S4C, ac amrywiaeth o gynyrchiadau radio ar gyfer y BBC.

Ymatebion i feysydd diddordeb y Pwyllgor

- **Effaith y berthynas newydd ar artistiaid a gweithwyr creadigol sy'n teithio ac yn gweithio ar draws ffiniau (gan gynnwys teithio a gweithio yng Nghymru)**
2. Yn gyffredinol mae wedi dod yn anoddach i'r rheini sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol deithio yn ôl ac ymlaen i'r UE, gydag agweddau fel y gofynion fisa newydd yn golygu mwy o amser a mwy o gost. Mae hyn yn ei dro yn ei gwneud yn afresymol mewn rhai amgylchiadau i geisio cyflogi talent o'r UE, gan ei fod yn arwain at gost anghymesur yn enwedig o ystyried maint cymharol fach llawer o gwmnïau yn y diwydiannau creadigol.
 3. Mae un o'n haelodau wedi adrodd bod ymadawiad y DU â'r UE wedi creu problemau mawr ac opsiynau criw cyfyngedig ar gyfer cynyrchiadau VFX (effeithiau gweledol):

“Yn y gorffennol, roeddem yn cyflogi staff yr UE a'r AEE yn rheolaidd ar fyr rybudd, ac roeddent yn gallu symud i Gaerdydd yn rhwydd, a gweithio yn ein stiwdio VFX. Gwnaeth hyn ein helpu i gystadlu â stiwdios Llundain gan fod criw o'r tu allan i'r DU yn fwy agored i weithio yng Nghymru, tra bod mwyafrif y criw o'r DU ond eisïau gweithio yn Llundain, yn enwedig ar brosiectau tymor byr. Mae gweithio o bell wedi lleihau'r effaith, ond dim digon i wneud iawn am hyn yn llawn.”

“Nawr, wrth logi talent yr UE, mae'r fiwrocratiaeth a'r amserlenni ychwanegol wedi effeithio arnom yn fawr. Mae pob achos yn wahanol yn dibynnu ar genedligrwydd, a rhaid i ni sicrhau bod gennym yr hawl gywir i weithio dogfennau, cael codau rhannu ar gyfer ein ffeiliau, ac os ydym wedyn eisïau cadw talent yn y tymor hwy, mae'n rhaid i ni edrych ar nawdd sy'n dod ar gost yn dibynnu ar genedligrwydd a rôl. Mae'r broses yn llawer mwy cymhleth a chynnil.”

“Fe wnaeth y sector hefyd elwa o ffrydiau incwm ar gyfer mentora VFX o gynlluniau fel y Cross Channel Film Lab a ariannwyd gan yr UE ond a gaewyd ar ôl Brexit.”

4. Mae hefyd yn werth ystyried, yn ychwanegol at yr anawsterau ymarferol, efallai fod canfyddiad bod y DU yn llai croesawgar i dalent o'r UE. Cyfeiriodd adroddiad gan Ganolfan Polisi a Thystiolaeth y Diwydiannau Creadigol (PEC) ar y mater o gael mynediad at dalent ar ôl i'r DU adael yr UE at lawer o sefydliadau creadigol ledled y DU sy'n nodi bod y DU yn gyffredinol yn cael ei hystyried yn llai croesawgar a chynhwysol, gan weithredu fel rhwystr i recriwtio talent o'r UE².

² [Migration and accessing talent in the Creative Industries. Creative Industries PEC. Mawrth 2023, t29, para 4.3.4](#)

- **Effaith trefniadau masnachu newydd sy'n ymwneud â gweithgarwch diwylliannol**
5. Er nad ydym yn ymwybodol o lawer o ffigurau ar gael yn eang ar effaith gyffredinol gadael yr UE ar y diwydiannau creadigol, nodwn fod y PEC Creadigol wedi nodi yn ei adroddiad 'State of Creativity' yn 2023 fod "Ymchwil a gyflawnwyd ... yn awgrymu'n betrus rhwng 2016 a 2019, gallai canlyniad refferendwm Brexit a'r ansicrwydd a greodd i fusnesau a oedd yn masnachu â'r UE fod wedi lleihau allforion gwasanaethau creadigol 15%".³
 6. Fodd bynnag, yn y farchnad teledu yn benodol, roedd y toriad mewn cynhyrchiant a achoswyd gan COVID wedi arwain at ostyngiad mewn allforion, ond mae'r adroddiad ar allforion teledu ar gyfer 2021-22⁴ yn dangos bod twf wedi bod yn y farchnad ar ôl y pandemig gyda rhai tiriogaethau Ewropeaidd yn cynyddu, er enghraifft Ffrainc, yr Eidal a'r Almaen (er nad yw Ffrainc a'r Eidal eto yn dychwelyd i lefelau cyn Covid). Drama wedi'i sgrïptio yw'r prif genre ar gyfer allforion ac felly rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r genre hwnnw yng Nghymru gan S4C, Cymru Greadigol, y BBC a hefyd Netflix, a oedd yn comisiynu *Sex Education* a sioeau eraill ac sydd hefyd wedi prynu *Dal y Mellt*, y sioe Gymraeg gyntaf ar Netflix – mae'r sioe bellach wedi cael ei chomisiynu ar gyfer ail gyfres.
 7. Fodd bynnag, ar ôl y pandemig mae'r cynnydd yn y galw am gynnwys wedi arwain at brinder sgiliau, fel y tynnwyd sylw ato mewn adroddiadau amrywiol ar sgiliau'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, gan gynnwys adroddiad mis Hydref ar weithlu'r diwydiannau creadigol o bwyllgor cyfryngau'r Senedd⁵.
 8. Ar gyfer y DU yn gyffredinol, mae Screenskills wedi rhagweld⁶ "erbyn 2025, bydd angen buddsoddiad blynyddol o rhwng £95.1 miliwn a £104.3 miliwn i fodloni gofynion hyfforddi'r gweithlu cynhyrchu ffilm a theledu HETV. Nid yw hyn yn cynnwys costau unrhyw leoliadau gwaith a allai gyd-fynd â rhaglenni hyfforddi dwys". Mae hefyd yn datgan "gan fod symudiad rhydd o'r Undeb Ewropeaidd (UE) wedi dod i ben erbyn hyn, nid yw'r gronfa o dalent o'r UE a oedd ar gael i liniaru prinder ym marchnad lafur y DU ar gael mwyach. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o bwysau ar swyddi".
 9. Mae TAC ac eraill yn y sector yn gwneud ein gorau i wrthsefyll yr effeithiau hyn, er enghraifft drwy bartneriaeth hyfforddi TAC-S4C, sydd wedi cynnal 102 o gyrsiau gyda 1,497 o gofrestrïadau ers ei sefydlu yn 2019.
 10. O ran y cytundebau masnach newydd â gwledydd y tu allan i'r UE, er nad yw clyweledol bob amser yn cael ei gynnwys yn y trefniadau, mae'n bwysig sicrhau nad oes unrhyw gytundebau newydd yn cynnwys gwanhau diogelu IP neu annog cynnydd sylweddol

³ [The State of Creativity. Creative Industry Policy & Evidence Centre, 2023, p17](#)

⁴ [UK TV Exports Report 2021-22. Pact/Fremantle/BBC Studios/ITV Studios/All3Media/3Vision](#)

⁵ [Y tu ôl i'r llenni: gweithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, Hydref 2023, t15-16](#)

⁶ [Forecast of labour market shortages and training investment needs in film and HETV production. Screenskills with BFI, Nordicity, Saffery Champness, Jun 2022 p23](#)

mewn cynnwys teledu wedi'i fewnforio, a fyddai'n cael effaith ar allbwn diwylliannol a sector cynhyrchu'r DU/Cymru ei hun.

11. Ar ôl i ni adael yr UE, mae'r DU yn dal yn rhan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol, sy'n golygu bod cynnwys y DU yn dal i elwa o'r gofyniad bod rhaid i ddarlledwyr teledu sicrhau bod 10% o'u cyllideb yn cael ei neilltuo ar gyfer cynnwys sy'n tarddu o wlad sydd wedi llofnodi Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol y CE a bod rhaid i wasanaethau ar-alw sicrhau bod 30% o'u catalog yn cynnwys gwaith Ewropeaidd o'r fath. Felly, mae'n bwysig bod y DU yn parhau i fod yn rhan o'r Confensiwn hwn.

- **Argaeledd canllawiau a chymorth i'r sector sy'n ymwneud â'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE**

12. Er bod cyfyngiadau teithio newydd yn gallu achosi problemau, mae cwmnïau cynhyrchu teledu o Brydain yn dal i allu mynychu'r marchnadoedd rhyngwladol ac mae TAC wedi bod yn gweithio gydag Adran Busnes a Masnach y DU i sicrhau bod cwmnïau yng Nghymru yn gallu cael gafael ar gymorth Llywodraeth y DU a hefyd yn dysgu gan y rheini sydd eisoes yn gweithio yn y marchnadoedd rhyngwladol, o fewn a thu allan i'r UE. Cynhaliodd TAC, DBT ac S4C ddigwyddiad 'Concro'r Byd' ar y cyd ym mis Mawrth eleni, gan ddod â chynhyrchwyr, dosbarthwyr, cyllidwyr ac eraill at ei gilydd i siarad am strategaethau a chymorth allforio. Byddwn yn cynnal digwyddiad arall o'r fath yng Ngogledd Cymru ym mis Tachwedd.

13. Rydym hefyd yn cysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru/Cymru Greadigol/Ffilm Cymru Wales, sy'n gweithio i annog mwy o gyd-gynrychiadau rhyngwladol ac i ddenu mwy o gynrychiadau teledu a ffilmiau o'r radd flaenaf i Gymru, mewn cydweithrediad â Chomisiwn Ffilm Prydain ac eraill.

14. I'r perwyl hwn, rydym yn falch o weld cyflwyno cynlluniau fel Sinema Cymru, a ddatblygwyd rhwng Cymru Greadigol, S4C a Ffilm Cymru gyda'r nod o gefnogi ffilmiau Cymraeg sydd â photensial sgrîn fawr rhyngwladol. Mae Cymru Greadigol hefyd wedi darparu cyllid cynhyrchu ar gyfer dwy ddrama newydd, *Men Up* (Boom Cymru) a *Tree on a Hill / Pren ar Y Bryn* (Fiction Factory). Yn ddiweddar hefyd cafwyd arddangosfa a noddwyd gan Cymru Greadigol i 35 o gynrychiolwyr o asiantaethau cyllido Ewropeaidd, a gynhaliwyd gan Ffilm Cymru Wales.

- **Yr effaith ar fynediad at rwydweithiau a rhaglenni cyllido**

15. Mae colli mynediad at raglen MEDIA Ewrop Greadigol yr UE wedi arwain at golli buddsoddiad mewn cynrychiadau teledu a ffilm yn y DU gan yr UE a lleihau'r gallu i gydweithio a hyrwyddo cynnwys Ewropeaidd ar y cyd i weddill y byd.

16. Rhwng 2014–2020, derbyniodd y DU €68 gan raglen Ewrop Greadigol⁷. Er bod y DU (drwy'r Gronfa Sgrîn Fyd-eang) a llywodraethau Cymru wedi bod yn rhoi adnoddau i

⁷ [Impacts on Arts and Culture. UK in a changing Europe, April 2001](#)

wahanol agweddau ar ddarparu sgiliau, datblygu teledu/ffilm ac ati, nid yw'n glir a fydd mentrau fel y Gronfa Sgrîn Fyd-eang yn cael eu cynnal o un flwyddyn i'r llall ac felly gallai colli cyllid yr UE yn barhaus, serch hynny, gael effaith negyddol ar y cyllid sydd ar gael.

17. Mae'r buddsoddiad gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU yn dal yn bwysig ac mae TAC yn gweithio ar hyn o bryd i sicrhau bod cynyrchiadau y rhestrir eu bod yn cael eu gwneud yng Nghymru yn gwneud cyfraniad gwirioneddol at economi a sylfaen sgiliau creadigol Cymru, er mwyn i fuddsoddiad strategol y tu allan i Lundain ac yng Nghymru gyflawni ei nodau arfaethedig.
 18. Mae hefyd yn bwysig bod y DU yn cadw ei gostyngiadau treth sector creadigol ac yn parhau i ychwanegu atynt. Yn ddiweddar, adolygodd Trysorlys EF/CTHEF y gostyngiadau treth sector sgrîn ar gyfer rhaglenni plant, HETV, a ffilm ac animeiddio a phenderfynwyd eu cyfuno'n rhannol yn un 'credyd gwariant'. Croesawyd hyn gan TAC ac eraill, gan gynnwys y penderfyniad i gynnal trothwy cymhwyster HETV ar £1 miliwn yr awr (yn hytrach na chodi'r trothwy, a gafodd ei gynnig gan Drysorlys EF).
 19. Fodd bynnag, er mwyn galluogi darlledwyr a chynhyrchwyr brodorol lleiafrifol i elwa o'r buddsoddiad rhyngwladol ychwanegol a ddaw yn sgil hyn, mae'n bwysig cyflwyno trothwy cymhwyster is i gredyd gwariant HETV ar gyfer cynyrchiadau ieithoedd brodorol lleiafrifol, oherwydd y cyllidebau is dan sylw. O ystyried diddordeb Netflix ac eraill mewn cynyrchiadau Cymraeg, gallai hyn roi hwb ychwanegol gwirioneddol i fuddsoddiad allanol yn y sector teledu yng Nghymru a rhai rhannau eraill o'r DU.
- **Unrhyw newidiadau i'r berthynas rhwng y DU a'r UE a allai wella gweithio trawsffiniol ar gyfer y sector diwylliant**
20. Yn gyffredinol, mae angen symleiddio system fisa'r DU cymaint â phosibl drwy ddefnyddio technoleg a dulliau eraill i ganiatáu teithio am ddim i artistiaid a gweithwyr creadigol. Mae angen gwneud rhagor o waith 'cymell tawel' hefyd i fynd i'r afael â'r canfyddiad o'r DU fel rhywle nad yw'n croesawu talent o'r UE a gwledydd eraill.
 21. Yn gyffredinol, mae angen archwilio pob ffordd i annog mwy o gydweithio rhwng Cymru a gwledydd eraill yr UE.
 22. Nodwn fod y DU wedi ailymuno â rhaglen ymchwil wyddonol Horizon yr UE er mwyn parhau â chydweithio gwyddonol rhyngwladol. Yn yr un modd, hoffem weld y DU yn edrych ar ail-ddefnyddio rhaglen MEDIA, a fyddai'n arwain at fwy o gydweithio yn yr un modd yn y diwydiannau creadigol. Mae eisoes amrywiaeth o wledydd eraill nad ydynt yn aelodau sy'n cymryd rhan mewn o leiaf rhai agweddau ar raglen Ewrop Greadigol a hoffem weld y DU yn cymryd camau i wneud yr un fath.